# Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2024/25

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*

*This document is available in English*

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

CARDIFF CAERDYDD

## Cyflwyniad

Mae'r Gymraeg wastad wedi bod yn rhan annatod o hunaniaeth Caerdydd a gweledigaeth Cyngor Caerdydd yw creu prifddinas wirioneddol ddwyieithog. Dinas lle mae'r Gymraeg yn cael ei chlywed ar y strydoedd ac yn y cartref, mewn ysgolion, ac mewn siopau, caffis a bwytai - ym mhob man mae dinasyddion Caerdydd yn ymgynnull i weithio, dysgu a chwarae! Caerdydd eisoes yw'r awdurdod lleol gyda'r trydydd nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a'r dwysedd mwyaf o siaradwyr Cymraeg fesul milltir sgwâr. Mae'r adroddiad hwn yn dangos ymrwymiad y Cyngor i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i ffynnu a bod holl ddinasyddion Caerdydd yn gallu dysgu'r iaith a'i defnyddio fel rhan o'u bywydau bob dydd.

**" Gweledigaeth Cyngor Caerdydd yw creu prifddinas wirioneddol ddwyieithog. "**

### Safonau'r Gymraeg

Fel awdurdod lleol, disgrifir gofynion darparu gwasanaethau Cymraeg Cyngor Caerdydd yn Safonau'r Gymraeg a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Mae cefnogi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn gofyn am ddull cynhwysfawr a phrif ffrydio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar waith Cyngor Caerdydd, yn amrywio o ddarparu gwasanaethau a datblygu polisi i recriwtio a hyfforddiant staff. Mae'r agweddau hyn yn cyd-fynd â'i gilydd gan fod gwasanaethau a chyflawni polisi yn gofyn am gapasiti digonol o ran staff sydd â sgiliau Cymraeg a dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion y Gymraeg ar draws y sefydliad cyfan.

Mae Caerdydd Ddwyieithog yn cydlynu'r gwaith hwn gyda chydweithwyr yng Nghyngor Caerdydd ac amrywiaeth eang o bartneriaid allanol. Mae'r tîm polisi yn rhoi cyngor ar ddatblygu polisi a gofynion Safonau'r Gymraeg, ac mae'r tîm cyfieithu yn darparu cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd o ansawdd uchel.

## Cymraeg 2050




Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gynllun gweithredu Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.  Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn darparu camau gweithredu i gefnogi themâu allweddol Cymraeg 2050:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol i'r iaith ffynnu.

Mae'n briodol mynd i'r afael â gwaith Cyngor Caerdydd i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y themâu hyn fel cynnig cynhwysfawr i'w dinasyddion.  Mae'r adroddiad hwn yn cynnig gwybodaeth fel sy'n ofynnol gan Safonau'r Gymraeg tra hefyd yn ymhelaethu ar y ffyrdd y mae Cyngor Caerdydd wedi cyfrannu at themâu allweddol Cymraeg 2050.

## Deilliannau Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ymgynghori â sefydliadau a enwir o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i werthuso effeithiolrwydd ei weithdrefnau rheoleiddio a sut y gellid eu gwella.  Mae hyn wedi arwain at adolygiad o Bolisi Gorfodi'r Comisiynydd ac ymrwymiad bod rheoleiddio yn cynnwys mwy nag ymgymryd ag ymchwiliadau statudol a gosod camau gorfodi cyfreithiol a bydd wedi ei seilio ar fodel cyd-reoleiddio a chyflawni deilliannau rheoleiddio.

| Capasiti | Ymwybyddiaeth | Polisi | Gweithle | Hyrwyddo | Llywodraethiant |
|---|---|---|---|---|---|
| **Deilliant 1** | **Deilliant 2** | **Deilliant 3** | **Deilliant 4** | **Deilliant 5** | **Deilliant 6** |
| Mae’r capasiti gan sefydliadau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel bob amser. | Mae defnyddwyr y Gymraeg **yn deall ac yn ymwybodol** o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt. | Mae sefydliadau'n rhoi sylw dyledus i effeithiau posibl eu **penderfyniadau polisi** ar y Gymraeg. | Mae sefydliadau'n cynyddu'r defnydd o'r **Gymraeg yn eu gweithleoedd**, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd. | Mae sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg fel bod pobl yn gallu **defnyddio'r iaith yn naturiol** yn eu bywydau bob dydd. | Mae sefydliadau'n gwarchod ac yn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr y Gymraeg drwy fod â **llywodraethiant a threfn gwynion** effeithiol. |

Mae Cyngor Caerdydd yn cefnogi ymrwymiad Comisiynydd y Gymraeg i weithio gyda sefydliadau, gwella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg, ac i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r Adroddiad Blynyddol wedi'i strwythuro i adlewyrchu'r deilliannau rheoleiddio a gwaith y Cyngor i'w cefnogi.

# Deilliant 1: Capasiti

## Mae’r capasiti gan sefydliadau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel bob amser.

Mae Cyngor Caerdydd yn datblygu ei gapasiti drwy ei waith yn cefnogi datblygu’r gweithlu. Mae hyn yn cynnwys recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, hyfforddiant Cymraeg, a dynodi swyddi fel rhai Cymraeg hanfodol, er mwyn sicrhau bod gan bob gwasanaeth ddigon o staff cymwys ar gael i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o'r ansawdd uchaf posibl.

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn cynnwys targedau ar gyfer cynyddu nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg ac ar gyfer nifer y staff sy'n cwblhau hyfforddiant Cymraeg.

- Cynyddu nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg yng ngweithlu’r Cyngor i 20% o’r gweithlu erbyn 2027.

- Cynyddu nifer staff y Cyngor sydd wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg i 50% o'r gweithlu erbyn 2027.


Mae’r data gweithlu a gyflwynir isod yn cadarnhau bod gan 18.82% o'r gweithlu corfforaethol sgiliau Cymraeg. Mae'r ffigur hwn yn cael ei gasglu ar 31 Mawrth bob blwyddyn ac mae'n adlewyrchu cynnydd parhaus o'r ffigur o 14.5% ar gyfer 2022. Os cynhelir y cynnydd presennol, bydd canran gweithlu Cyngor Caerdydd sydd â sgiliau Cymraeg yn 21.7% erbyn 2027.

Mae 1,417 o aelodau staff Cyngor Caerdydd wedi cwblhau cyrsiau Cymraeg yn 2024/25 gyda chyfanswm o 4,775 wedi cwblhau cyrsiau Cymraeg ers 2022. Mae hyn yn 59% o'r gweithlu presennol sy'n golygu bod Cyngor Caerdydd eisoes wedi cyrraedd ei darged ar gyfer 2027.

## Sgiliau Cymraeg Staff

Ar 31 Mawrth 2025, adroddodd **1480** o weithwyr bod sgiliau Cymraeg ganddynt. Mae hyn yn gynnydd o **10%** ers 2023/24 (1344) ac yn cynrychioli **28.87%** o'r rhai sydd wedi'u cofrestru ar system AD ddigidol y Cyngor a **18.82%** o'i weithlu corfforaethol.

Drosodd, gellir gweld dadansoddiad llawn fesul gwasanaeth ac mae ffigur 1 yn dangos canran pob gwasanaeth sydd ag unrhyw sgiliau Cymraeg.




## Recriwtio

Yn ystod 2024/25 hysbysebwyd **1564** o swyddi. Hysbysebwyd **46** o swyddi lle roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol. Hysbysebwyd **716** o swyddi lle roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol.

Hysbysebwyd **51% (802)** o swyddi lle barnwyd nad oedd angen unrhyw sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd.

Sylwer bod y ffigurau hyn **yn ymwneud yn unig â swyddi nad ydynt yn swyddi ysgol.**

| Gwasanaeth | Lefel Mynediad | Sylfaen | Canolradd | Uwch | Hyfedr | Cyfanswm | Canran staff y gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *OEDOLION, TAI A CHYMUNEDAU* | *255* | 72 | 58 | 30 | 52 | 467 | 15.78% |
| *GWASANAETHAU PLANT* | *190* | 37 | 17 | 24 | 30 | 298 | 33.07% |
| *DATBLYGU ECONOMAIDD* | *85* | 19 | 17 | 12 | 17 | 150 | 11.70% |
| *ADDYSG A DYSGU GYDOL OES (Ac Eithrio Ysgolion)* | *93* | 26 | 21 | 12 | 33 | 185 | 17.47% |
| *LLYWODRAETHIANT A GWASANAETHAU CYFREITHIOL* | *20* | 2 | 3 | 4 | 9 | 38 | 35.19% |
| *PERFFORMIAD A PHARTNERIAETHAU* | *16* | 6 | 2 | 3 | 23 | 50 | 44.25% |
| *CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A'R AMGYLCHEDD* | *54* | 14 | 10 | 3 | 10 | 91 | 15.45% |
| *ADNODDAU* | *107* | 28 | 15 | 21 | 30 | 201 | 23.56% |
| | | | | | | | *Canran y staff Corfforaethol* |
| ***Cyfanswm*** | ***820*** | ***204*** | ***143*** | ***109*** | ***204*** | ***1480*** | ***18.82%*** |

| 1417 | 252 | 7224 |
|---|---|---|
| **Staff gwblhaodd hyfforddiant Cymraeg** | **Staff gwblhaodd gyrsiau gyda thiwtoriaid** | **Cyfanswm oriau o hyfforddiant a wnaed** |

Yn 2024/25, cymerodd **1417** aelod o staff ran mewn cyrsiau hyfforddi Cymraeg, ac o'r rhain:

- cwblhaodd **1015** aelod staff e-fodiwl Cyflwyniad i’r Gymraeg Lefel 1 Academi Caerdydd
- mynychodd **252** aelod staff gyrsiau hyfforddi Cymraeg dan arweiniad tiwtoriaid, ac mae hyn yn cynnwys cyrsiau blasu a byr (**81** mynychydd), cyrsiau dwys 120 awr (**111** mynychydd), cyrsiau 60 awr (**56** mynychydd), Sefydlu Corfforaethol drwy Gyfrwng y Gymraeg (**4** mynychydd).
- cwblhaodd **24** aelod staff y cwrs ar-lein 60 awr i ddechreuwyr drwy'r cynllun 'Iaith Gwaith'.
- Cwblhawyd **7224** awr o hyfforddiant gan staff gan gynnwys **3985** o oriau gan staff a aeth ymlaen i gwblhau cwrs, **964** o oriau gan staff a gymerodd ran mewn hyfforddiant ond heb gwblhau eu cwrs, **1015** o oriau wedi eu treulio yn cwblhau'r modiwl Cyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1 Ar-lein, a **1260** o oriau gan staff a gwblhaodd y cyrsiau 10 awr Cymraeg Gwaith Ar-lein.
- Cwblhaodd **791** aelod staff e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith Cyngor Caerdydd.
- Cwblhaodd **126** aelod staff gyrsiau 10 awr Iaith Gwaith Ar-lein

| Modiwl | Nifer staff a gwblhaodd | % cydymffurfio |
|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg | 4136 | 62.1% |
| Cyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1 | 3462 | 51.98% |

Mae'r Modiwl Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Chyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1 yn fodiwlau e-ddysgu gorfodol ar gyfer staff Cyngor Caerdydd. Darperir data cydymffurfio ar gyfer y modiwlau hyn gan gynnwys nifer presennol y staff sydd wedi cwblhau pob modiwl, ac mae'r ffigwr hwn hefyd yn cael ei gynrychioli fel canran o'r gweithlu presennol.

**E-ddysgu Cymraeg o fath arall**

Darperir y cyrsiau e-ddysgu canlynol yn Gymraeg:

- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Diogelu Corfforaethol
- Hawliau Plant
- Sut i Ddarparu Gwasanaeth Cwsmeriaid Gwych

- Ymwybyddiaeth o Dwyll
- Hanfodion Diogelu Data
- Safon Diogelwch y Diwydiant Cardiau Talu
- Sefydlu Corfforaethol

## **Deilliant 2:** Ymwybyddiaeth
**Mae defnyddwyr Cymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt.**

### Cyfryngau cymdeithasol

| Platfform | Dilynwyr | | Argraffiadau |
|---|---|---|---|
| **Pob un** | ▲ *(i fyny 2.4%)* | **4,940** Cyfanswm Dilynwyr | **450,000** Cyfanswm argraffiadau |
| **Facebook** | ▲ *(i fyny 9%)* | **1,335** | **190,465** |
| **X** | ▼ *(i lawr 6%)* | **3,049** | **207,045** |
| **Instagram** | ▲ *(i fyny 60%)* | **556** | **55,631** |

Mae Cyngor Caerdydd yn cynnal sawl cyfrif cyfryngau cymdeithasol Cymraeg pwrpasol. Mae'r cyfrifon hyn yn cael eu hyrwyddo'n rheolaidd ac mae ganddynt gyfanswm cyfunol o 4,940 o ddilynwyr - cynnydd o 2.4% o'i gymharu â 2023/24. Mae cynnwys a gyhoeddir ar y cyfrifon hyn yn

canolbwyntio ar hyrwyddo mynediad at wasanaethau Cymraeg a darparu gwybodaeth amserol i'r cyhoedd. Yn 2024/25 cyhoeddwyd ychydig dros 4,800 o bostiadau ar y sianeli hyn, gan gynhyrchu mwy na 450,000 o argraffiadau (amlder gweld).

Mae cyfleoedd i gyrchu gwasanaethau yn Gymraeg yn cael eu hyrwyddo ar draws sianeli cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg y Cyngor – yn ystod y flwyddyn a fu mae hyn, er enghraifft, wedi cynnwys hyrwyddo'r nifer cynyddol o siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio i'r Cyngor, tynnu sylw at opsiynau addysg Gymraeg fel rhan o'r broses dderbyn i ysgolion, a rhoi cyhoeddusrwydd i wefan 'Ein Dinas: Ein Hiaith'.

## Gwasanaethau Digidol

**1,617**
**o alwadau**
wedi'u hateb gan linell Gymraeg C2C

**1,100**
**o negeseuon Cymraeg**
i Dîm Cyfryngau Cymdeithasol C2C

**15,997**
**o geisiadau Cymraeg**
wedi'u derbyn drwy Ap Cyngor Caerdydd

**7,913**
**o ddefnyddwyr**
wedi cyrchu tudalennau Cymraeg ar wefan Cyngor Caerdydd

**29,455**
**cyfanswm edrychiadau tudalennau**
ar Dudalennau Cymraeg gwefan Cyngor Caerdydd

**383**
**o ffurflenni gwe Cymraeg**
Wedi eu cwblhau a’u cyflwyno drwy wefan Cyngor Caerdydd

Mae'r ffordd y mae'r cyhoedd yn cysylltu â'r Cyngor wedi newid.  Cyflymodd y defnydd ar ganolfan gyswllt Cysylltu â Chaerdydd (C2C), y wefan, a ffurflenni cyswllt digidol yn ystod y pandemig a dyma sut mae'r mwyafrif o geisiadau gwybodaeth ac ymholiadau ynghylch Gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu cyflwyno erbyn hyn.

Yn 2024/25

- Derbyniwyd 1,617 o alwadau i linell Gymraeg C2C a'u hateb gan aelod o staff sy'n siarad Cymraeg
- Derbyniwyd 1,100 o negeseuon Cymraeg gan dîm cyfryngau cymdeithasol C2C gan dderbyn ymatebion Cymraeg
- Derbyniwyd 15,997 o geisiadau Cymraeg am wybodaeth drwy Ap Cyngor Caerdydd
- Cyrchodd 7,913 o ddefnyddwyr dudalennau Cymraeg ar wefan Cyngor Caerdydd gyda 29,455 o edrychiadau ar dudalennau
- Cyflwynwyd 383 o ffurflenni gwe cais am wybodaeth Gymraeg gan dderbyn ymatebion Cymraeg

# **Deilliant 3:** Polisi

## Mae sefydliadau'n rhoi sylw dyledus i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg

### Cynllun Datblygu Lleol

Comisiynwyd Iaith Cyf / Burum i gynnal asesiad llawn o effaith y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl) ar y Gymraeg yn 2023 ac fe'i cwblhawyd ym mis Ionawr 2025. Dyma'r tro cyntaf i asesiad o'r math hwn gael ei wneud ac, ochr yn ochr â gwaith swyddogion Caerdydd Ddwyieithog i ddatblygu polisïau newydd ar y Gymraeg, mae'n arloesol ac yn bellgyrhaeddol am ei fod yn **datgan bod Caerdydd yn Ardal o Bwysigrwydd Ieithyddol ar gyfer dyfodol y Gymraeg**. Bydd yn gam pendant wrth wireddu cynllun gweithredu Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ac yn ategu nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer gwlad lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Os bydd y CDLl terfynol yn cael ei fabwysiadu, bydd hi'n ofynnol i bob cais datblygu mawr ystyried y Gymraeg a chynnwys mesurau i'w hyrwyddo yn y ddinas fel rhan o'u cais – neu fesurau lliniaru os tybir y bydd y cais yn cael effaith negyddol. Bydd y Polisi hwn hefyd yn cryfhau gwelededd y Gymraeg ac yn sicrhau bod materion o'r fath yn derbyn ystyriaeth gydwybodol ar gam cynnar yn y broses gynllunio – yn gyson â chyfarwyddyd Comisiynydd y Gymraeg ar ddatblygu polisi. Bydd CDLl arfaethedig Caerdydd yn cael ei adneuo i'w archwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn gynnar yn 2025 gyda golwg ar ei wneud yn weithredol yn ystod 2027.

Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y CDLl cwblhawyd papur technegol i gefnogi'r Asesiad Effaith llawn a pholisïau newydd y Cynllun ar y Gymraeg. Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus, bydd y ddogfen hon yn ddefnyddiol i bartneriaid Caerdydd Ddwyieithog a rhanddeiliaid eraill sydd angen adnodd cynhwysfawr sy'n manylu ar hanes yr iaith a'i sefyllfa gyfredol ym mhrifddinas Cymru.

Roedd y gwaith ategol a holl ddogfennau'r CDLl - yr asesiadau amrywiol, y dogfennau ategol, a'r dogfennau ymgynghori cyhoeddus yn cynrychioli cyfaint sylweddol o waith cyfieithu ar gyfer Caerdydd Dwyieithog. Yn 2024/25 cyfieithwyd 500,000 o eiriau yn ychwanegol i gefnogi'r CDLl newydd.

Mae fframwaith asesu effaith cynhwysfawr ar gyfer y Gymraeg pan fydd polisi yn cael ei ddatblygu bellach wedi'i sefydlu, ac mae'r wybodaeth a roddir isod yn dangos y gwaith a gwblhawyd yn 2024-25 i gefnogi hyn.

**Offeryn Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

Lansiwyd templed Asesiad Effaith Sengl newydd ddiwedd 2024 gan gynnwys adran benodol ar y Gymraeg. Fe'i cynhwysir fel **ATODIAD 2**.

**Llinellau Cyllideb 2025/2026 ar gyfer Ymgynghori (Cynigion Arbedion)**

Adolygwyd cyfanswm o **29** o asesiadau effaith ar gynigion arbedion i gefnogi ymgynghoriad cyllideb y Cyngor, gan sicrhau bod unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg yn deillio o'r cynigion yn cael eu hamlygu.

Adolygwyd **44** o bolisïau a strategaethau pellach gan y Grŵp Blaengynllunio Asesu Effaith a chynigiwyd sylwadau ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Mae'r Grŵp Blaengynllunio Asesu Effaith yn cyfarfod yn fisol ac yn adolygu blaengynlluniau ar gyfer Craffu a'r Cabinet dri mis ymlaen llaw. Mae hyn wedi caniatáu trosolwg gwell o ofynion asesu effeithiau posibl yn ogystal ag amser ychwanegol i asesu polisïau, adroddiadau cysylltiedig, a materion ymgynghori, a darparu asesiadau effaith a chwestiynau ymgynghori mwy cadarn.

Mae'r gwaith hwn yn cefnogi mwy o ystyriaeth gydwybodol i'r effaith bosibl ar y Gymraeg a chydymffurfio â gofynion Comisiynydd y Gymraeg.

Mae nifer cynyddol o wasanaethau bellach yn cynnwys data staffio o'r Dangosfwrdd Rheoli yn eu hasesiadau effaith ar y Gymraeg fel tystiolaeth o gapasiti.

Mae hyn yn dilyn cwblhau arolwg o sgiliau Cymraeg staff a swyddi Cymraeg dynodedig ac ymarfer i wella'r data a gedwir gan y Cyngor. Mae hyn wedi dangos sut mae gwahanol feysydd gwaith Caerdydd Ddwyieithog yn cysylltu â'i gilydd i godi ymwybyddiaeth a gwella'r monitro.

**Blwch E-bost Polisi Pwrpasol**

Mae blwch post materion polisi Cymraeg Caerdydd Ddwyieithog wedi cael ei hyrwyddo o fewn y Cyngor ac mae'n cael ei ddefnyddio fwyfwy gan gydweithwyr. Mae darparu blwch post ar wahân i'r hyn a ddefnyddir ar gyfer ymholiadau cyfieithu wedi caniatáu rheoli ceisiadau am gyngor ac arweiniad ar bolisi ynghylch y Gymraeg yn fwy effeithiol.

MaterionPolisiIaithGymraeg@caerdydd.gov.uk

## **Deilliant 4:** Gweithle

**Mae sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithleoedd, gan alluogi staff i weithio'n Gymraeg o ddydd i ddydd.**

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn credu mewn amgylchedd dwyieithog lle mae defnyddio sgiliau Cymraeg yn y gwaith yn cael ei werthfawrogi a'i annog yn weithredol.

*Caerdydd Ddwyieithog Cyngor Dwyieithog* yw polisi'r Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg, a'i defnydd yn y gweithle. Fe'i cynhwysir yn **ATODIAD 3.**


Diwygiwyd y Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg yn 2021 i gefnogi capasiti Cymraeg y Cyngor a hyrwyddo mynediad at gyrsiau hyfforddi Cymraeg. Roedd y camau gweithredu yn y strategaeth ddiwygiedig yn cynnwys gwneud sgiliau Cymraeg a/neu iaith gymunedol yn ofyniad dymunol ar gyfer pob swydd sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cyhoedd, cynnig holl gyrsiau Cymraeg Academi Caerdydd yn rhad ac am ddim i staff, ac ymrwymiad i gynnal arolwg o sgiliau Cymraeg staff ac o swyddi a ddynodwyd fel rhai Cymraeg hanfodol. Cyflwynwyd targedau yn strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 i gynyddu nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg ac sydd yn cwblhau cyrsiau Cymraeg a byddant yn cael eu cyrraedd erbyn y dyddiad targed o 31 Mawrth 2027.

## Arolwg Sgiliau Iaith Cymraeg a Swyddi Cymraeg Hanfodol

Yn 2024/25 cynhaliwyd arolwg ar ochr y Cyngor o sgiliau Cymraeg y staff a swyddi a ddynodwyd yn rai Cymraeg Hanfodol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r strategaeth Sgiliau Iaith. Gofynnwyd i'r holl reolwyr yn y Cyngor gwblhau asesiad o'u tîm i ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- Sut mae'r timau yn ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Nifer y staff ym mhob tîm sydd â sgiliau Cymraeg a lefel eu sgiliau Cymraeg.
- Nifer y swyddi yn y tîm sydd wedi'u dynodi'n rai Cymraeg hanfodol.

Nod yr asesiad hwn oedd nodi gallu pob tîm i ddarparu gwasanaethau Cymraeg a chreu gwaelodlin i gefnogi ymyriadau ac i fesur eu heffaith.




### Allbynnau Allweddol

| | |
|---|---|
| **277** | o dimau wedi dychwelyd asesiad capasiti manwl o sgiliau Cymraeg, swyddi hanfodol Cymraeg, a lefel ymgysylltu â'r cyhoedd eu tîm |
| **32** | o sylwadau wedi eu derbyn gan reolwyr yn taflu goleuni ar faterion ymarferol o ran hyfforddiant, recriwtio ac anghenion sgiliau Cymraeg |


**76** o sgyrsiau rhwng cydlynwyr a rheolwyr hyd yn hyn i ddehongli ymatebion ac i nodi atebion

Cafwyd 277 o ymatebion gan reolwyr Cyngor. Tybir bod hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb o 25%. Bydd y gwaith o hyrwyddo'r ffurflen arolwg ac annog ymatebion gan reolwyr yn parhau. Mae ymyraethau yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a byddant yn cael eu gweithredu yn 2025/26.

**Continwwm Capasiti Cymraeg**


Mae'r ymarfer hwn wedi ein galluogi i gategoreiddio pob tîm yn y Cyngor yn ôl gallu'r tîm i weithredu'n ddwyieithog ar hyd y continwwm Capasiti Cymraeg.

| | Capasiti Uchel | | Capasiti Canolig | | Capasiti Isel | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 20%+ Cymraeg Hanfodol | 20%+ Siaradwyr Cymraeg | 10%+ Siaradwyr Cymraeg | 10%+ Dysgu Cymraeg | Capasiti Cymraeg Isel | Dim ymwneud â'r cyhoedd |
| **Disgrifiad manwl** | 20% o swyddi tîm yn cynnwys gofyniad iaith L3 | 20% o unigolion yn y tîm yn gallu siarad Cymraeg L3-L5 | 10% o unigolion yn y tîm yn gallu siarad Cymraeg L3-L5 | 10% o unigolion yn y tîm yn gallu siarad Cymraeg L1-L2 | Llai na 10% mewn swyddi Cymraeg hanfodol neu'n siarad/dysgu'r iaith | Capasiti Cymraeg isel, ond dim ymwneud â'r cyhoedd |


Nifer o dimau ym mhob categori continwwm capasiti Cymraeg
23
48
71
55
63
15
0
10
20
30
40
50
60
70
80
Ddim yn wynebu'r cyhoedd
Capasiti dwyieithog isel
10%+ Dysgu Cymraeg
10%+ Siarad Cymraeg
20%+ Siarad Cymraeg
20%+ Cymraeg hanfodol


Mae Tîm Cyfieithu Caerdydd Ddwyieithog yn cefnogi cydweithwyr yng Nghyngor Caerdydd, a nifer o bartneriaid allanol yn y sector cyhoeddus, gyda gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel drwy gyfieithu dogfennau ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd. Yn 2024/25 cyfieithodd y tîm 13,855,563 o eiriau

Cyfanswm y gwaith cyfieithu ar gyfer Cyngor Caerdydd yn 2024/25 oedd 7,218,079 a'r cyfanswm ar gyfer partneriaid allanol oedd 6,637,484.



**689** **Awr** o gyfieithu ar y pryd

**252** **O ddigwyddiadau a chyfarfodydd** gyda chyfieithu ar y pryd




Mae Caerdydd Ddwyieithog yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd ar-lein, yn bersonol ac yn rhithwir.

Yn 2024/2025 fe wnaethom ddarparu'r gwasanaeth hwn gan gwmpasu 689 awr a 252 o gyfarfodydd a digwyddiadau gan alluogi cyfranogwyr i gyfrannu yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Mae cyfanswm nifer yr oriau yn gynnydd sylweddol ar 2023/2024 pan gyflawnwyd 404 awr o gyfieithu ar y pryd. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn defnydd gan bartneriaid allanol.

# **Deilliant 5:** Hyrwyddo

**Mae sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg fel bod pobl yn gallu defnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd.**


## Addysg

**Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg**
Datblygwyd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 i gyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32 (CSCA) Cyngor Caerdydd.

Mae cynllun gweithredu Caerdydd Ddwyieithog yn cynnwys targedau i gynyddu'r niferoedd sy'n mynd i leoedd meithrin a derbyn cyfrwng Cymraeg i gefnogi cyflawni targed y CSCA sef 25% o ddisgyblion wedi eu cofrestru mewn dosbarthiadau derbyn Cymraeg erbyn 2032.

**Lleoedd Derbyn**
Mae data Nifer Ar Y Gofrestr ar gyfer mis Hydref 2024 yn dangos bod 641 o ddisgyblion ar y gofrestr mewn lleoedd derbyn ysgolion cynradd Cymraeg, sef 17.7% o'r cyfanswm niferoedd derbyn ledled y ddinas.

**Lleoedd Meithrin**
Mae data Nifer Ar Y Gofrestr ar gyfer Hydref 2024 yn dangos bod 631 o ddisgyblion ar y gofrestr mewn lleoedd meithrin mewn ysgolion cynradd Cymraeg, sef 19.7% o'r cyfanswm niferoedd derbyn ledled y ddinas.



**Niferoedd a Chanran y disgyblion Codi'n 4 yn mynychu dosbarthiadau meithrin Cymraeg o 2017/18 i 2024/25**

| Blwyddyn Ysgol | Niferoedd Derbyn Gwirioneddol Codi'n 4 (C) | Niferoedd Derbyn Gwirioneddol (C, S a Ffydd) | % Niferoedd Derbyn Gwirioneddol (C) |
|---|---|---|---|
| *2017/18* | *533* | *3,851* | *13.8%* |
| *2018/19* | *477* | *3,832* | *12.4%* |
| *2019/20* | *565* | *3,745* | *15.1%* |
| *2020/21* | *493* | *3,439* | *14.3%* |
| *2021/22* | *515* | *3,445* | *14.9%* |
| *2022/23* | *510* | *3,280* | *15.5%* |
| *2023/24* | *587* | *3,283* | *17.9%* |
| *2024/25* | *631** | *3,200** | *19.7%** |

Mae Caerdydd wedi gweld cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu dosbarthiadau meithrin Cymraeg rhwng 2023 a 2024 ac mae hyn wedi'i gynnal yn y data dros dro ar gyfer 2025.   Mae'r twf hwn yn cyd-fynd â sefydlu Ysgol Gynradd Groes-wen ym mis Medi 2023 sydd wedi cynyddu nifer y lleoedd meithrin Cymraeg sydd ar gael yng Nghaerdydd.

**Niferoedd a Chanran y disgyblion a dderbyniwyd i addysg Gymraeg o 2009/10 i 2024/25**

| Blwyddyn Ysgol | Nifer Derbyn Gwirioneddol (C) | Nifer Derbyn Gwirioneddol (C, S a Ffydd) | % Nifer Derbyn Gwirioneddol (C) |
|---|---|---|---|
| ***2009/10*** | *572* | *3,683* | *15.5%* |
| ***2010/11*** | *594* | *3,859* | *15.4%* |
| ***2011/12*** | *651* | *4,019* | *16.2%* |
| ***2012/13*** | *686* | *4,221* | *16.3%* |
| ***2013/14*** | *678* | *4,256* | *15.9%* |
| ***2014/15*** | *706* | *4,246* | *16.6%* |
| ***2015/16*** | *690* | *4,335* | *15.9%* |
| ***2016/17*** | *744* | *4,340* | *17.1%* |
| ***2017/18*** | *707* | *4,098* | *17.3%* |
| ***2018/19*** | *702* | *4,125* | *16.9%* |
| ***2019/20*** | *683* | *4,119* | *16.6%* |
| ***2020/21*** | *749* | *4,136* | *18.1%* |
| ***2021/22*** | *657* | *3,789* | *17.3%* |
| ***2022/23*** | *658* | *3,844* | *17.1%* |
| ***2023/24*** | *655* | *3,655* | *17.9%* |
| ***2024/25*** | *641** | *3,598** | *17.7%** |

## Ysgol Groes-wen

Roedd gan y ffrwd iaith ddeuol yn Ysgol Groes-wen 26 o ddisgyblion yn y dosbarth Derbyn ac 20 o ddisgyblion yn y dosbarth Meithrin. Nid yw'r disgyblion hyn wedi'u cynnwys yn y data Meithrin a Derbyn Cymraeg uchod oherwydd, pe baent yn aros yn y ffrwd ddeuol, byddai angen trochi iaith ychwanegol arnynt i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ddigonol i fynychu addysg uwchradd Gymraeg.

## Cymraeg i Bawb

Cwblhaodd cynllun peilot Partneriaeth Cymraeg i Bawb, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ei ail flwyddyn yn llwyddiannus yn 2024/25. Mae'r Bartneriaeth yn hyrwyddo mynediad i addysg Gymraeg yn ne-ddwyrain Cymru ac mae'n cynnwys 10 Awdurdod Lleol y rhanbarth, 8 Menter Iaith, a phartneriaid eraill. Mae Partneriaeth Cymraeg i Bawb wedi ei chadeirio gan Gyngor Caerdydd gydol y cyfnodau datblygu a pheilot.

Cynhaliwyd ail Gynhadledd Cymraeg i Bawb yng Nghanolfan Soar ym Merthyr Tudful ar 3 Ebrill 2025 i ddathlu gwaith y bartneriaeth. Ymhlith y prif siaradwyr roedd Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ac Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg.

Yn ystod y gynhadledd, cadarnhawyd bod y cynllun peilot y de-ddwyrain wedi bod yn llwyddiant yn dilyn gwerthusiad llawn o'r prosiect ac y byddai'r cyllid Cymraeg i Bawb yn cael ei ddyblu i ymestyn y prosiect yn genedlaethol.

## Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog

Yn unol â Safon y Gymraeg 145, rhaid i Gyngor Caerdydd gynhyrchu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd i hyrwyddo'r Gymraeg. Lansiwyd y strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyntaf yn 2017 ac, yn dilyn asesiad ac adolygiad, lansiwyd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 ym mis Ebrill 2022.

Mae'r strategaeth yn darparu targedau a chamau gweithredu i gefnogi tair thema allweddol Cymraeg 2050 i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol i'r iaith ffynnu. Cyflawnir y strategaeth mewn partneriaeth ag aelodau Fforwm Caerdydd Ddwyieithog sy’n cynnwys cynrychiolaeth o blith ysgolion cynradd ac uwchradd Caerdydd, darparwyr addysg uwch ac addysg bellach, cyrff diwylliannol, a sefydliadau Cymraeg fel yr Urdd, Mudiad Meithrin a Menter Caerdydd.

Mae'r camau gweithredu a gwblhawyd yn 2024-25 yn cynnwys:

### Cymraeg i Bawb

Cefnogi ail flwyddyn partneriaeth Cymraeg i Bawb – cynllun peilot i hyrwyddo mynediad at addysg Gymraeg ar draws de-ddwyrain Cymru.

### Gyrfa Gymraeg

Cynnal Gyrfa Gymraeg – digwyddiad i hyrwyddo gyrfaoedd Cymraeg a sgiliau Cymraeg – mewn partneriaeth â phrifysgolion Caerdydd a Choleg Caerdydd a'r Fro. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ym mis Mehefin gyda dros **700** o **Ddisgyblion Blwyddyn 12** yn mynychu o ysgolion uwchradd Cymraeg o bob cwr o dde Cymru.

### Is-grwpiau CSCA

Cynnal is-grwpiau arbenigol i gefnogi menter beilot i gynyddu niferoedd derbyn mewn 3 ysgol gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd ac i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhrifysgolion a cholegau Caerdydd fel rhan o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

### CFTi

Cynyddodd Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd y ddarpariaeth ieuenctid Gymraeg yng Nghaerdydd mewn partneriaeth â Menter Caerdydd a'r Urdd o dan frand CFTi, sydd bellach yn cynnal dros **40 sesiwn Gymraeg** yr wythnos yn y ddinas

### Cyrsiau Cymraeg Staff

Mae cynnydd yn nifer staff y Cyngor sydd â sgiliau Cymraeg ac sy'n cwblhau hyfforddiant Cymraeg yn parhau i fod yn uwch na'r gofyniad i gyrraedd y targedau ar gyfer diwedd y strategaeth bresennol yn 2027.

### Tafwyl

Parhau i ddarparu cefnogaeth i Tafwyl, gŵyl Gymraeg Caerdydd.  Mynychodd dros **36,000** yn 2024.

Mae copi o gynllun gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 wedi'i gynnwys fel **ATODIAD 1.**

**Adolygu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog**

Cynhaliwyd adolygiad yn 2024/25 i asesu sut mae cynnydd gyda'r camau gweithredu a'r targedau a gyflwynir yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn cael eu hadrodd a'u mesur. Roedd y wybodaeth a dderbyniwyd yn dangos bod gweithgarwch sylweddol wedi'i gynnal gan Gyngor Caerdydd a phartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyieithog i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg. Fodd bynnag, adnabuwyd y gellid gwella'r gwaith o gasglu data gwrthrychol ynghylch nifer y cyfranogwyr, nifer y cyfleoedd a nifer y digwyddiadau. Yn ogystal, roedd yn anodd asesu cynnydd tuag at dargedau'r cynllun gweithredu a chytunwyd i ddatblygu gwaelodlin cynhwysfawr o weithgarwch cyfredol i hwyluso ymarferion cymharu a mesur llwyddiant. Bydd holiadur i gasglu'r data hwn gan bartneriaid yn cael ei ddatblygu a'i ddosbarthu yn 2025/26 i ddechrau'r broses o gasglu'r data gwaelodlin angenrheidiol.

Cwblhawyd asesiad o effaith y CDLl newydd ar y Gymraeg yn 2024/25.  Mae'r asesiad hwn a'r polisïau CDLl newydd cysylltiedig yn cyflwyno nifer o argymhellion i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg.  Mae'r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyfredol wedi'i strwythuro i gefnogi cynllun gweithredu Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ystyriwyd ei bod yn briodol adolygu'r strategaeth i alinio'n well â'r asesiad a'r polisïau newydd hyn er mwyn eu cefnogi wrth symud ymlaen.  Mae hyn yn cydnabod cyfle gwych i brif ffrydio'r iaith i gynigion datblygu yn y dyfodol ledled y ddinas.

Bydd y gwaith o adolygu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn cael ei gynnal i gyd-fynd ag amserlen Archwilio'r CDLl. Bydd hyn hefyd yn rhoi digon o amser i drafod gyda phartneriaid ac i gasglu'r data angenrheidiol i ddarparu gwaelodlinau a llywio targedau'r cynllun gweithredu cyn, ac yn amodol ar, gymeradwyaeth y Cabinet.

# **Deilliant 6:** Llywodraethiant

**Mae sefydliadau'n gwarchod ac yn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr y Gymraeg drwy fod â llywodraethiant a threfn gwynion effeithiol.**

**Cwynion ac Ymchwiliadau**

| Mewnol | Comisiynydd y Gymraeg | | |
|---|---|---|---|
| 3 | 3 | 8 | 2 |
| Cwynion a dderbyniwyd | Ymchwiliadau newydd | Cyfanswm ymchwiliadau | Ymchwiliadau ar agor ar ddiwedd y flwyddyn |

Derbyniwyd 3 cwyn yn 2024/25 gan aelodau o'r cyhoedd ynglŷn â chydymffurfio Cyngor Caerdydd â Safonau'r Gymraeg.

Derbyniwyd 3 ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg i fethiannau posibl i gydymffurfio â'r safonau.

Mae monitro proses Cyngor Caerdydd ar gyfer delio ag ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2024/2025 yn dangos bod 8 ymchwiliad yn "fyw" yn ystod y flwyddyn, gyda 5 yn parhau o'r flwyddyn flaenorol a 3 yn newydd yn 2024/25.

Erbyn diwedd 2024/2025 dim ond 2 o'r ymchwiliadau hyn sy'n dal ar agor, ac mae'r holl ohebiaeth rhwng swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a'r adran dan sylw yn gyfredol yn unol â'r amserlen statudol.

Mae Tîm Polisi Caerdydd Ddwyieithog yn gweithredu fel cyswllt rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Chyfarwyddiaeth y Cyngor sy'n destun yr ymchwiliad. Caiff materion eu huwchgyfeirio i lefel uwch, corfforaethol ar gyfer cyngor pellach dim ond mewn achosion o anghydfod posibl â phenderfyniad y Comisiynydd neu lle gallai'r penderfyniad hwn fod â goblygiadau sylweddol a/neu ganlyniadau ariannol i'r Cyngor. Dim ond mewn

achosion eithriadol y byddai hyn yn digwydd, gan fod y cyfathrebu parhaus ac agored rhwng y Cyngor a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn ystod pob ymchwiliad yn golygu y gellir delio ag unrhyw faterion dadleuol posibl wrth iddynt godi.

## Cyngor Polisi

### Blwch Post Safonau'r Gymraeg Pwrpasol

Mae Caerdydd Ddwyieithog yn cynnal blwch post pwrpasol ar gyfer Ymchwiliadau'r Gymraeg a ddaw i law gan Gomisiynydd y Gymraeg.

YmchwiliadauSafonau@caerdydd.gov.uk

### Tîm Polisi Caerdydd Ddwyieithog

Mae'r tîm yn cyfarfod bob wythnos i drafod materion polisi yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys datblygu ac adolygu polisïau, asesu asesiadau effaith ar y Gymraeg, cefnogi'r gwaith o gynnal ymchwiliadau statudol a mynd i'r afael â chwynion am wasanaethau Cymraeg.

## Llywodraethiant

### Uwch Dîm Rheoli

Trafodir materion Cymraeg yn rheolaidd yng nghyfarfod Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor i rannu gwybodaeth ac i ddarparu cymorth gweithredol

### Rhwydwaith Cydlynwyr y Gymraeg

Mae Cyngor Caerdydd yn cynnal rhwydwaith o gydlynwyr a phencampwyr y Gymraeg Mae gan bob gwasanaeth gydlynydd Cymraeg sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg a rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr. Mae'r cydlynwyr yn cael eu cefnogi gan Bencampwyr y Gymraeg sy'n uwch swyddogion ar lefel Rheolwr Gweithredol, neu uwch. Mae dogfen ganllaw sy'n disgrifio cyfrifoldebau Cydlynwyr a Phencampwyr y Gymraeg wedi'i chynnwys fel **ATODIAD 4**.

Mae'r Cydlynwyr yn cyfarfod yn fisol i drafod materion polisi'r Gymraeg ac i dynnu sylw at unrhyw heriau a nodwyd ynghylch darparu gwasanaethau Cymraeg o fewn eu gwasanaethau. Yn ystod 2024/25 cefnogodd y cydlynwyr gyflawniad arolwg y Cyngor o sgiliau Cymraeg staff a swyddi a ddynodwyd fel rhai Cymraeg hanfodol. Mae hyn wedi cynnwys ymgynghori ar yr arolwg ei hun a rhoi cyngor i arweinwyr a rheolwyr tîm ar y data oedd ei angen i'w gwblhau. Mae'r cydlynwyr hefyd wedi cynorthwyo tîm polisi Caerdydd Ddwyieithog i adolygu'r data a ddaeth i law.

Bydd y Cydlynwyr a'r Pencampwyr yn rhan annatod o'r ymyriadau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan Caerdydd Ddwyieithog i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn rhaglen y Cyngor i ddatblygu'r gweithlu.

**Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwyieithog**

Mae Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwyieithog yn grŵp trawsbleidiol o gynghorwyr sy'n cymryd rôl flaenllaw wrth gefnogi'r weledigaeth o Gaerdydd wirioneddol ddwyieithog ac o ddatblygu Caerdydd gwirioneddol ddwyieithog a hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter, ac, yn 2024/25, fe drafodon nhw amrywiaeth o faterion Cymraeg gan gynnwys ymchwiliadau statudol Comisiynydd y Gymraeg, datblygu a chyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor, cyflawni'r amcanion sy'n cefnogi Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27, a'r asesiad o effaith Cynllun Datblygu Lleol Newydd y Cyngor ar y Gymraeg.